# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS MAI 2020:**
**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom a pawb yn ei gartref yn defnyddio ei gyfrifiadur neu ei ffôn** am 7y.h. nos Fercher 13 Mai, 2020**.** Estynwyd croeso i'r aelodau a diolchwyd i TT am drefnu'r ochr dechnegol.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Bethan Holding, Iwan Harding.

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau 30 Ebrill, 2020 fel rhai cywir a threfnwyd i'r Cadeirydd ei harwyddo. Cynnig ac eilio: TT/OG.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Defaid Crwydrol:***
Ymddiheurodd y Clerc na chafodd gyfle i drafod gyda'r person a enwyd i wneud gwaith bugeiliol gyda defaid crwydr yn Llanberis. Addawodd gysylltu ag ef yn fuan, yn ogystal a Tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru.
***2. Cynllun Cyfaill:***
Mae'n ymddangos bod y Cynllun Cyfaill a sefydlwyd gan y Cyngor yn dal i weithio, er nad yw'r galw yn fawr.

**5 GOHEBIAETH:**
1. Derbyniwyd nifer o geisiadau am arian oddi wrth nifer o elusennau. Polisi presennol y Cyngor ydi cynnig cymorth i fudiadau ac elusennau lleol yn unig ac wedi trafodaeth penderfynwyd cadw at y polisi hwnnw, er fod nifer o'r elusennau yn rhai clodwiw iawn. Cytunwyd yn unfrydol ar hynny.
2. Cafwyd llythyr oddiwrth Gyngor Gwynedd (CG) yn egluro sefyllfa bresennol y Gwasanaeth Cynllunio a sut mae'r gwasanaeth yn ceisio gweithio.

**6 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ebrill, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £3,306.18 **Cyfrif Cadw**: £5,364.58

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM … … £2,153.00**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/03/2020 a 28/04/2020:**
**CYFANSWM … … £270.91**

Cynnig ac eilio: HLJ / HS

**7 MANTOLEN BLWYDDYN Ebrill 2019 - Mawrth 2020:**
Cyflwynwyd taflen Cysoni'r Banc am y flwyddyn a aeth heibio. Gwelwyd fod gweddill ar y dydd olaf o Fawrth o £4,059.85 ond gan fod £4,000 heb ei hawlio y llynedd o'r cyfrif trwy amryfusedd y banc, er fod y talai wedi derbyn ei arian, roedd y cyfanswm wrth gefn yn £8,059.85.
Dangoswyd wedyn y ddwy fantolen, Derbyniadau a Taliadau, ac roedd y cyfansymiau'n cyfateb. Wrth edrych ar y Gyllideb nodwyd fod £2,000 ar gyfer Cronfa Tir a phenderfynwyd ychwanegu y £4,000 at hynny. Fel arall roedd y Gyllideb wedi bod yn agos iawn at ei lle. Nodwyd fod nifer o arbedion wedi bod, ond roedd y gwariant wedi bod yn uwch ar y wefan, biniau halen, wal y Fynwent a cynnal a chadw'r cae chwarae ar lan y llyn. Roedd y torri coed yn y Fynwent wedi bod yn wariant ychwanegol i'r Gyllideb.
Derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo'r ffurflen archwilio flynyddol er mwyn trosglwyddo'r cyfan i'r Archwiliwr Mewnol yng Nghyngor Gwynedd.
Cynnig ac eilio: TT/HS.

| CYNGOR CYMUNED LLANBERIS | | |
|---|---|---|
| ***Cysoni'r Banc 31 Mawrth 2020.*** | ***2019*** | ***2020*** |
| **Gweddill 01.04.2019** | 9180.92 | 4818.16 |
| (+) Derbyniadau | 28897.74 | 34586.21 |
| (-) Taliadau | 33260.50 | 35344.52 |
| **Gweddill 31.03.2020** | 4818.16 | 4059.85 |
| **Yn y Banc 31.03.2020** | | |
| Cyfrif Cyfredol | 9758.46 | 6043.98 |
| Cyfrif Cadw | 5352.93 | 5363.67 |
| | 15111.39 | 11407.65 |
| | **15111.39** | **11407.65** |
| Llai Sieciau nas talwyd | 10293.23 | 3347.80 |
| **Gweddill 31.03.2020** | **4818.16** | **8059.85** |
| HEB GLIRIO LLYNEDD | | 4000.00 |
| **GWEDDILL FELLY 31.03.2020** | | **4059.85** |

**8. MATERION ERAILL [Brys gyda caniatâd y Cadeirydd]:**

***1 Coed Doctor:***

OG - Adroddwyd nad yw'r giat byth wedi ei thrwsio. Hefyd mae ffens y ffordd fawr wedi ei chwalu.

***2. Baner Diolch i'r GIG:***

Mae'r ddau bentref wedi cael baneri 'Diolch i'r GIG/NHS'. Rhoddwyd y faner yn rhodd i Nantperis ac yn unol a dymuniad cwmni Caernarfon Signs**,** y gwneuthurwr, penderfynwyd anfon rhodd o £100 tuag at Ambiwland Awyr Cymru. Roedd person di-enw wedi talu am un Llanberis. (KMJ a IO)

***3. Aelodaeth:***

Cytunwyd i ddechrau y broses o chwilio am aelodau i'r seddi gwag. Dau yn Ward Padarn ac un yn Ward Peris.

**9 CYFARFOD NESAF:**

Dyddiad y cyfarfod nesaf ar Zoom, os na fydd y rheolau wedi newid. <u>Nos Fercher 17 Mehefin 2020</u>.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 17 Mehefin 2020. **2/2**